GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A458 (CWM DUGOED, POWYS) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru, ymhen nid llai na 7 niwrnod ar ôl dyddiad yr Hysbysiad hwn, yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

Mae angen y Gorchymyn arfaethedig er mwyn caniatáu i waith hanfodol, sef cynnal a chadw a gosod wyneb newydd, gael ei wneud ar Gefnffordd yr A458 Amwythig i Ddolgellau (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") yng Nghwm Dugoed yn Sir Powys.

Bydd y gwaharddiad a ganlyn, a fydd yn amrywio o ran ei hyd a'i led ac y codir arwyddion priodol yn nodi hynny, yn weithredol rhwng 08:30 o'r gloch ac 17:30 o'r gloch, yn dechrau ar 10 Ionawr 2011 ac yn parhau hyd 20 Ionawr 2011 neu hyd oni fydd yr arwyddion traffig dros dro yn cael eu symud oddi yno'n derfynol.

Effaith y Gorchymyn arfaethedig fydd gwahardd dros dro bob cerbyd rhag mynd ar y darn hwnnw o'r gefnffordd yng Nghwm Dugoed yn Sir Powys sy'n ymestyn o bwynt 60 o fetrau i'r dwyrain o'r fynedfa i Ben-rhiwcul i bwynt 15 o fetrau i'r gorllewin o'r fynedfa i Nantyrehedydd.

Er na ddisgwylir i'r Gorchymyn arfaethedig fod yn weithredol ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 6 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ail amserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol oherwydd amgylchiadau nas rhagwelwyd.

Yn ystod cyfnodau cau'r ffordd, y llwybr amgen i gerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin fydd iddynt deithio tua'r dwyrain ar y gefnffordd i'r Trallwng. Teithio ar yr A490 tua'r de i Sarnybryncaled ac ymuno â'r A483. Teithio ar yr A483 tua'r de-orllewin i'r Drenewydd ac ymuno â'r A489. Teithio ar yr A489 tua'r gorllewin i Gaersŵs ac ymuno â'r A470. Teithio ar yr A470 tua'r gogledd-orllewin i Fallwyd ac ymuno â'r A458 tua'r dwyrain i Gwm Dugoed. I'r gwrthwyneb i gerbydau sy'n teithio tua'r dwyrain.

M D BURNELL
Is-adran Cynllunio a Llywodraethu Trafnidiaeth 3

GELLIR CAEL COPI PRINT BRAS O'R HYSBYSIAD HWN GAN LYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU, TRAFNIDIAETH, TAI AC ADFYWIO, IS-ADRAN CYNLLUNIO A LLYWODRAETHU TRAFNIDIAETH 3, PARC CATHAYS, CAERDYDD CF10 3NQ.

THE A458 TRUNK ROAD (CWM DUGOED, POWYS) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose, in not less than 7 days from the date of this Notice, to make an Order under Section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

The proposed Order is necessary to enable essential maintenance and resurfacing works to be carried out on the A458 Shrewsbury - Dolgellau Trunk Road (hereinafter referred to as 'the trunk road') at Cwm Dugoed in the County of Powys.

The following prohibition, the extent of which will vary and be sign-posted accordingly, will operate between the hours of 08.30 hours and 17:30 hours commencing on the 10 January 2011 until the 20 January 2011 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

The effect of the proposed Order will be to temporarily prohibit all vehicles from proceeding in that length of the trunk road at Cwm Dugoed in the County of Powys which extends from a point 60 metres east of the access to Pen-Rhiwcul to a point 15 metres west of the access to Nant-yr-Ehedydd.

Although the proposed Order is only expected to operate during the dates specified above, it will remain valid for a maximum period of 6 months as a contingency should the work need to be rescheduled or consequential work be required due to unforeseen circumstances.

During the periods of closure, the alternative route for westbound vehicles will be to travel east on the trunk road to Welshpool. Take the A490 south to Sarn-y-bryn-Caled and join the A483. Take the A483 south-west to Newtown and join the A489. Take the A489 west to Caersws and join the A470. Take the A470 north-west to Mallwyd and join the A458 east to Cwm Dugoed. Vice versa for eastbound vehicles.

M D BURNELL
Transport Planning and Governance Division 3

A COPY OF THIS NOTICE IN LARGER PRINT CAN BE OBTAINED FROM THE WELSH ASSEMBLY GOVERNMENT, TRANSPORT, HOUSING AND REGENERATION, TRANSPORT PLANNING AND GOVERNANCE DIVISION 3, CATHAYS PARK, CARDIFF CF10 3NQ.

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE